20. Ysgolion Newydd a Chyrff Llywodraethu Dros Dro

Pan benderfynir sefydlu ysgol a gynhelir newydd, bydd rhaid sefydlu:

- corff llywodraethu cysgodol neu dros dro cyn corffori'r ysgol;
- corff llywodraethu parhaol i ddod i rym ar ddiwrnod sefydlu'r ysgol.

Cefndir

1. Gellir sefydlu ysgolion newydd am amryw o resymau, er enghraifft pan fo dwy ysgol neu fwy sy'n bodoli eisoes yn cael eu cyfuno neu pan fo angen ysgol newydd i fodloni'r galw cynyddol am leoedd. Ym mhob achos, yr ALl sy'n gyfrifol am wneud y trefniadau i sefydlu corff llywodraethu dros dro.

2. Mae Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005 Rhif OS 2912/2005 yn pennu'r rheoliadau ar gyfer llywodraethu ysgolion a gynhelir newydd yng Nghymru.

3. Mae'r Rheoliadau'n pennu amserlen ar gyfer sefydlu cyrff llywodraethu dros dro neu gysgodol, y nifer a'r mathau o lywodraethwyr a sut y cânt eu henwebu a'u penodi.

Trefniadau a Wneir tra'n Disgwyl i'r Cynigion gael eu Cymeradwyo

4. Yn ôl Rheoliad 5 o Reoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005, pan gyhoeddir unrhyw gynigion i sefydlu ysgol a gynhelir newydd, gall yr ALl drefnu, o dan Adran 34 o Ddeddf Addysg 2002, i sefydlu corff llywodraethu dros dro tra'n disgwyl i'r cynigion gael eu cymeradwyo.

VC 5. Os yw'r ysgol a sefydlir yn mynd i fod yn ysgol wirfoddol a reolir, rhaid i'r ALl drafod gyda'r hyrwyddwyr:

- a ddylid rhoi grym i'r ALl wneud trefniadau tra'n disgwyl i'r cynigion gael eu cymeradwyo; ac
- os yw'r ALl yn bwriadu defnyddio'i bwerau, y dyddiad ar gyfer gwneud y trefniadau.

VA F 6. Os yw'r ysgol a sefydlir yn mynd i fod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu'n ysgol sefydledig, rhaid i'r ALl a'r hyrwyddwyr ystyried:

- a ddylid rhoi grym i'r ALl wneud trefniadau tra'n disgwyl i'r cynigion gael eu cymeradwyo; ac
- os ydynt yn cytuno ar hyn, y dyddiad ar gyfer gwneud y trefniadau.

VA VC F

7. Pan fo hyrwyddwyr yn cyhoeddi cynigion i sefydlu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, rhaid i'r ALl beidio â gwneud trefniadau mewn perthynas â llywodraethwyr sefydledig dros dro ar ran yr ysgol heb i'r hyrwyddwyr gytuno i hyn.

8. Os bydd anghytuno rhwng yr ALl a'r hyrwyddwyr ynglŷn â'r trefniadau ym Mharagraffau 4, 5 neu 6, gall y naill barti neu'r llall gyfeirio'r mater i Weinidogion Cymru. Bydd rhaid i'r Gweinidogion ymateb fel y gwelant yn dda.

Profiad Gofynnol y Llywodraethwyr Dros Dro

9. Rhaid i unrhyw unigolyn sy'n gyfrifol am benodi llywodraethwr dros dro ystyried pa mor gymwys yw'r unigolyn hwnnw i wneud y gwaith.

10. Ystyrir bod rhywun yn gymwys os yw ef neu hi wedi gweithio fel llywodraethwr neu lywodraethwr dros dro mewn unrhyw ysgol a gynhelir neu, pan fo ysgolion sy'n bodoli eisoes yn cau a bod plant yn cael eu trosglwyddo i ysgol newydd, rhaid bod ef neu hi wedi gweithio fel llywodraethwr neu lywodraethwr dros dro yn yr ysgol(ion) sy'n cau.

Categorïau o Lywodraethwyr Dros Dro

11. Mae aelodau corff llywodraethu dros dro yr un fath â chorff llywodraethu parhaol, fel yr amlinellir ym Mhennod 3 y canllaw hwn, sy'n ymdrin â chyfansoddiad cyrff llywodraethu neu Reoliadau 13 i 20 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005. Pan fo hawl i ddewis yn ôl disgresiwn nifer y llywodraethwyr parhaol mewn categori arbennig, y nifer isaf fydd yn cael eu dewis ar gyfer corff llywodraethu dros dro.

12. Mae'r paragraffau canlynol yn egluro'r prosesau penodi/enwebu ar gyfer pob categori o lywodraethwyr dros dro.

Rhiant-Lywodraethwyr Dros Dro

13. Mae "rhiant-lywodraethwr dros dro" yn rhywun a benodir i fod yn aelod o gorff llywodraethu dros dro ysgol newydd yn unol â pharagraffau 14 ymlaen.

14. Mae'r person(au) perthnasol yn cytuno ar ba riant-lywodraethwyr dros dro i'w penodi. Gall y person(au) perthnasol fod yn:

- ALl ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol arbennig gymunedol, ysgol sefydledig, neu ysgol feithrin a gynhelir y mae'r ALl wedi cyhoeddi cynigion i'w sefydlu;
- hyrwyddwyr ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig y mae'r hyrwyddwyr hynny wedi cyhoeddi cynigion i'w sefydlu.

15. Os bydd un neu fwy o ysgolion a gynhelir yn cau ac y disgwylir i nifer sylweddol o'r disgyblion presennol drosglwyddo i ysgol newydd, gall yr ALl neu'r hyrwyddwyr roi caniatâd i gorff/cyrff llywodraethu'r ysgol(ion) sy'n cau benodi rhai neu bob un o riant-lywodraethwyr dros dro'r ysgol newydd.

VC 16. O safbwynt ysgol wirfoddol a reolir, ni all yr ALl benodi unrhyw un yn rhiant-lywodraethwr dros dro oni bai ei fod wedi ymgynghori â'r hyrwyddwyr yn gyntaf.

17. Rhaid i unrhyw un a benodir yn rhiant-lywodraethwr dros dro fod yn rhiant plentyn sy'n ddisgybl ar gofrestr yr ysgol neu sy'n debygol o ddod yn ddisgybl cofrestredig yno. Lle nad yw'n rhesymol ymarferol penodi rhywun o'r fath, gall y corff llywodraethu benodi rhiant plentyn o oedran ysgol gorfodol, neu yn achos ysgol feithrin a gynhelir newydd, rhiant plentyn o oedran ysgol gorfodol neu'n iau.

S FS 18. Rhaid i unigolyn a benodir yn rhiant-lywodraethwr dros dro ar gyfer ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig newydd (nas sefydlir mewn ysbyty) fod yn rhiant plentyn sy'n ddisgybl ar gofrestr yr ysgol neu sy'n debygol o ddod yn ddisgybl cofrestredig yno. Lle nad yw'n rhesymol ymarferol gwneud hyn, gall y corff llywodraethu benodi:

- rhiant plentyn o oedran ysgol gorfodol sydd ag anghenion addysgol arbennig;
- rhiant rhywun o unrhyw oed sydd ag anghenion addysgol arbennig; neu
- gellir penodi rhiant plentyn o oedran ysgol gorfodol.

Rhaid ystyried yr opsiynau amgen hyn mewn trefn ddisgynnol.

19. Ni all unrhyw un gael ei benodi'n rhiant-lywodraethwr os yw ef neu hi:

- yn aelod etholedig o'r ALl;
- wedi'i gyflogi/chyflogi gan yr ALl mewn cysylltiad â'i swyddogaethau fel ALl; neu
- yn derbyn tâl, neu'n debygol o dderbyn tâl, i weithio yn yr ysgol am fwy na 500 awr mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis gan ddechrau ar 1 Awst a gorffen ar 31 Gorffennaf.

20. Gall rhywun barhau i fod yn rhaint-lywodraethwr dros dro pan nad yw'n bodloni unrhyw un o'r gofynion a nodir ym mharagraff 17 bellach, oni bai ei fod wedi'i anghymhwyso o dan y rheoliadau.

Staff-Lywodraethwyr Dros Dro

21. Mae "staff-lywodraethwr dros dro" yn unigolyn a benodir i fod yn aelod o gorff llywodraethu dros dro ysgol newydd. Yn unol â chyfansoddiad corff llywodraethu penodol fel y pennir ef yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 (gweler Pennod 3C Cyfansoddiad Cyrff Llywodraethu).

22. Mae'r person(au) perthnasol yn cytuno ar ba staff-lywodraethwyr dros dro i'w penodi. Gall y person(au) perthnasol fod yn:

- ALl ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol arbennig gymunedol, ysgol sefydledig, neu ysgol feithrin a gynhelir y mae'r ALl wedi cyhoeddi cynigion i'w sefydlu;
- hyrwyddwyr ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig y mae'r hyrwyddwyr hynny wedi cyhoeddi cynigion i'w sefydlu.

23. Rhaid i'r ALl neu'r hyrwyddwyr benderfynu a ddylid cynnwys staff-lywodraethwr dros dro ar y corff llywodraethu dros dro, a rhaid iddynt benodi rhywun i wneud y gwaith.

24. Rhaid i'r unigolyn a benodir, wrth gael ei benodi, fod wedi'i gyflogi i weithio mewn ysgol a gynhelir mewn unrhyw swydd heblaw swydd athro; a chaiff ei anghymhwyso rhag parhau yn y swydd os daw'r gyflogaeth i ben.

Athro-Lywodraethwyr Dros Dro

25. Mae "athro-lywodraethwr dros dro" yn unigolyn a benodir yn unol â'r aragraff canlynol, i fod yn aelod o gorff llywodraethu dros dro mewn ysgol newydd. Rhaid i'r unigolyn a benodir, wrth gael ei benodi, fod wedi'i gyflogi fel athro mewn ysgol a gynhelir; a chaiff ei anghymhwyso rhag parhau yn y swydd os daw'r gyflogaeth i ben.

26. Mae'r person(au) perthnasol yn cytuno ar ba athro-lywodraethwr dros dro i'w benodi. Gall y person(au) perthnasol fod yn:

a. Corff llywodraethu dros dro ysgol gymunedol, ysgol gymunedol wirfoddol a reolir, ysgol arbennig gymunedol, ysgol s,efydledig, neu ysgol feithrin a gynhelir y mae'r ALl wedi cyhoeddi cynigion i'w sefydlu;

VA F b. ALl, yn dilyn enwebiadau hyrwyddwyr ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig y mae'r hyrwyddwyr hynny wedi cyhoeddi cynigion i'w sefydlu.

27. Os bydd un neu fwy o ysgolion a gynhelir yn cau ac y disgwylir i ddisgyblion yr ysgol(ion) drosglwyddo i ysgol newydd, gall yr ALl yn achos paragraff 26(a), neu'r hyrwyddwyr yn achos paragraff 26(b), roi caniatâd i gorff/cyrff llywodraethu'r ysgol(ion) sy'n cau benodi rhai neu bob un o athro-lywodraethwyr dros dro yr ysgol newydd.

VC 28. O safbwynt ysgol wirfoddol a reolir, ni all yr ALl benodi unrhyw un yn athro-lywodraethwr dros dro oni bai ei fod wedi ymgynghori â'r hyrwyddwyr yn gyntaf.

Llywodraethwyr Awdurdod Addysg Lleol Dros Dro

29. Mae llywodraethwr AALl dros dro yn unigolyn a benodir gan yr ALl.

30. Ni ellir penodi rhywun i fod yn llywodraethwr AALl dros dro os ydynt yn gymwys i fod yn athro-lywodraethwr neu'n staff-lywodraethwr mewn ysgol.

Llywodraethwyr Cymunedol Dros Dro

31. Caiff llywodraethwr cymunedol dros dro ei benodi i'r corff llywodraethu gan y llywodraethwyr eraill.

32. Bydd y sawl a benodir yn byw neu'n gweithio yn y gymuned y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu a byddant, yn nhyb y corff llywodraethu, yn bobl sydd wedi ymrwymo i lywodraethu'n dda ac i lwyddiant yr ysgol newydd.

33. Ni fydd unigolyn yn gymwys mwyach i fod yn llywodraethwr cymunedol dros dro os yw neu'n debygol o fod yn:

- ddisgybl ar gofrestr yr ysgol newydd;
- cymwys i fod yn staff-lywodraethwr neu'n athro-lywodraethwr dros dro;
- yn aelod etholedig o'r ALl.

Llywodraethwyr Cymunedol Dros Dro Ychwanegol

VA VC F

34. Er mwyn sefydlu ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol, ysgol gynradd sefydledig neu ysgol feithrin a gynhelir mewn ardal lle mae un neu fwy o gynghorau cymuned, rhaid i'r corff llywodraethu dros dro gynnwys lle i lywodraethwr cymunedol dros dro ychwanegol.

35. Os bydd yr ysgol newydd mewn ardal lle mae un neu fwy o gynghorau cymuned, gall y corff llywodraethu wahodd un neu fwy o'r cynghorau hynny i enwebu rhywun.

36. Nid yw'r cyfyngiadau a nodir ym mharagraff 33 yn berthnasol i lywodraethwyr cymunedol dros dro ychwanegol.

Llywodraethwyr Sefydledig Dros Dro

VA VC F FS

37. Caiff llywodraethwyr sefydledig dros dro ychwanegol eu penodi mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion sefydledig yn unig. At ddibenion cyfrifo nifer y llywodraethwyr sefydledig dros dro sydd eu hangen mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyir, rhaid cymryd yn ganiataol fod pennaeth wedi'i benodi ac yn aelod o'r corff llywodraethu dros dro.

38. Rhaid i'r trefniadau nodi pwy fydd yn penodi'r llywodraethwyr sefydledig dros dro - ni all yr ALl wneud hyn - a rhaid i'r hyrwyddwr gytuno â hyn.

39. Os bydd cymeriad crefyddol arbennig i'r ysgol newydd, penodir y llywodraethwyr sefydledig dros dro er mwyn sicrhau y sefydlir ac y datblygir y cymeriad crefyddol hwnnw. Os bydd gan yr ysgol ddogfen ymddiriedolaeth, cânt eu penodi er mwyn sicrhau y sefydlir ac y cynhelir yr ysgol newydd yn unol â'r ddogfen ymddiriedolaeth honno.

40. Mae llywodraethwr sefydledig dros dro ex officio yn unigolyn sydd â swydd sy'n ei alluogi i weithredu fel llywodraethwr. Pan ddaw'r swydd benodol hon i ben, ni fydd y llywodraethwr ex officio yn gweithredu fel llywodraethwr dros dro mwyach.

Llywodraethwyr Partneriaeth Dros Dro

F FS 41. Yr unig bryd y penodir llywodraethwyr partneriaeth dros dro i ysgol sefydledig neu ysgol sefydledig arbennig yw pan nad oes sylfaen. Yr ALl sy'n eu penodi.

42. Os na fydd sylfaen gan ysgol sefydledig newydd gan hyrwyddwyr, rhaid i'r unigolyn a benodir gan yr ALl fod wedi'i enwebu gan yr hyrwyddwyr.

43. Rhaid i'r unigolyn sy'n enwebu neu'n penodi llywodraethwr partneriaeth dros dro fod yn fodlon bod yr unigolyn a benodir yn dod o'r gymuned y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu neu wedi ymrwymo i lywodraethu'n dda ac i lwyddiant yr ysgol.

44. Ni fydd unigolyn yn gymwys mwyach i fod yn llywodraethwr partneriaeth dros dro os yw'n:

- rhiant plentyn sy'n ddisgybl yn yr ysgol neu'r ysgol newydd, neu sy'n debygol o ddod yn ddisgybl yno;
- yn gymwys i fod yn staff-lywodraethwr neu athro-lywodraethwr dros dro yn yr ysgol newydd;
- yn debygol o fod yn ddisgybl yn yr ysgol newydd;
- yn aelod etholedig o'r ALl.
- wedi'i gyflogi gan yr ALl mewn cysylltiad â'i swyddogaethau fel ALl.

Llywodraethwyr Cynrychioliadol Dros Dro

S 45. Yn achos ysgol arbennig gymunedol rhaid i'r ALl benodi llywodraethwr cynrychioliadol dros dro i gymryd lle un o'r llywodraethwyr cymunedol.

46. Os sefydlir ysgol o'r fath mewn ysbyty, rhaid i'r ALl ddynodi naill ai un neu fwy o'r byrddau iechyd lleol sy'n cydweithredu neu Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol fel y corff priodol a gwahodd y corff hwnnw i enwebu unigolyn i ymgymryd â'r swyddogaeth honno.

47. Os na sefydlir ysgol o'r fath mewn ysbyty, rhaid i'r ALl ddynodi un neu fwy o sefydliadau elusennol sy'n gysylltiedig â'r ysgol i enwebu unigolyn i wneud y swyddogaeth honno.

Noddwr-lywodraethwyr Dros Dro

48. Os bydd gan ysgol newydd un noddwr neu fwy, gall y corff llywodraethu dros dro benodi un neu ddau o lywodraethwyr a enwebir gan y noddwyr hynny fel noddwr-lywodraethwyr dros dro.

49. Gall noddwr fod yn rhywun sydd wedi rhoi cymorth ariannol sylweddol (gan gynnwys buddion 'mewn nwyddau') y tu hwnt i ofyniad statudol, neu unrhyw unigolyn arall nad yw wedi'i gynrychioli ar y corff llywodraethu fel arall, sy'n darparu neu sydd wedi darparu gwasanaethau sylweddol.

Y Pennaeth fel Llywodraethwr Dros Dro

50. Os bydd dwy ysgol neu fwy yn cau a disgyblion ar gofrestri'r ysgolion hynny'n trosglwyddo i ysgol newydd, mae hawl gan benaethiaid yr ysgolion sy'n cau i fynychu cyfarfodydd y corff llywodraethu dros dro nes y penodir pennaeth ar gyfer yr ysgol newydd.

Penodiadau ar y Cyd

51. Os bydd anghytuno rhwng y bobl sy'n gweithredu ar y cyd i benodi llywodraethwyr dros dro, penodir dan gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru neu'n unol â'r cyfarwyddyd hwnnw.

Llywodraethwr Dros Dro yn Ymddiswyddo neu'n cael ei Ddiswyddo

52. Gall unrhyw aelod o gorff llywodraethu dros dro ymddiswyddo unrhyw bryd drwy hysbysu'r clerc.

53. Gall llywodraethwr ex officio ymddiswyddo o swydd llywodraethwr dros dro. Ni fyddai hyn yn rhwystro unrhyw olynydd i swydd y llywodraethwr ex officio rhag cael ei benodi fel llywodraethwr dros dro.

54. Gall unrhyw lywodraethwr dros dro mewn ysgol newydd gael ei ddiswyddo gan yr unigolyn/unigolion a'i penododd.

55. Gall y corff llywodraethu dros dro ddiswyddo y sawl a benodwyd ganddo - hynny yw, llywodraethwyr cymunedol dros dro, noddwr-lywodraethwyr dros dro ac athro-lywodraethwyr dros dro (pan y'u penodwyd gan gorff llywodraethu dros dro ysgol newydd na chaiff ei sefydlu o ganlyniad i gau ysgolion eraill). Er mwyn gwneud hyn, rhaid iddynt basio cynnig mewn cyfarfod, yn unol â'r gweithdrefnau a amlinellir yn Rheoliad 24 o Reoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005.

56. Yn achos pob un o'r uchod, gall y corff penodi ddiswyddo llywodraethwr dros dro a benodwyd ganddo. Er mwyn gwneud hyn rhaid iddo hysbysu'r clerc, y corff llywodraethu a'r llywodraethwr sy'n cael ei ddiswyddo yn ysgrifenedig.

Cymhwyso ac Anghymhwyso

57. Mae'r rheoliadau sy'n gysylltiedig â chymhwyso ac anghymhwyso llywodraethwr dros dro yn un fath â'r rheoliadau ar gyfer llywodraethwyr parhaol, fel y manylir ym Mhennod 3 o'r Canllaw hwn ac Atodlen 5 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.

58. Nid yw'r rheoliad sy'n rhwystro llywodraethwyr rhag dal mwy nag un swydd ar yr un pryd yn berthnasol yn achos swyddi llywodraethwyr dros dro.

Treuliau

59. Mae'r un ddyletswydd ar yr ALl i dalu treuliau'r corff llywodraethu dros dro ag y byddai pe bai'r cynigion wedi'u rhoi ar waith gan gorff llywodraethu'r ysgol.

Darparu Gwybodaeth

60. Rhaid i'r ALl sicrhau bod aelodau'r corff llywodraethu dros dro yn derbyn am ddim, unrhyw wybodaeth yr ystyria'r awdurdod yn angenrheidiol er mwyn i'r corff llywodraethu allu cyflawni'i swyddogaethau mewn modd effeithiol.

Ymddygiad yr Ysgol cyn Dyddiad yr Agoriad

61. Mae rhan 6 o Reoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005 yn nodi materion sy'n ymwneud ag ymddygiad yr ysgol y mae'n rhaid eu pennu cyn dyddiad yr agoriad, o dan gyfarwyddyd y corff llywodraethu dros dro.

Ymddygiad yr Ysgol ar ôl Dyddiad yr Agoriad

62. Rhwng dyddiad agor yr ysgol a dyddiad cyfansoddi corff llywodraethu parhaol yr ysgol o dan offeryn llywodraethu, mae pwerau a dyletswyddau cyffredinol cyrff llywodraethu parhaol, fel y nodir yn Atodlen 1 o Ddeddf Addysg 2002, yn berthnasol i'r corff llywodraethu dros dro.

Swyddogion y Corff Llywodraethu Dros Dro – y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc

63. Caiff clerc cyntaf y corff llywodraethu dros dro ei benodi gan:

- ALl ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol sefydledig y mae'r ALl wedi cyhoeddi cynigion i'w sefydlu;

VA F
- hyrwyddwyr ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig y mae'r hyrwyddwyr hynny wedi cyhoeddi cynigion i'w sefydlu.

64. Y clerc fydd yn galw cyfarfod cyntaf y corff llywodraethu dros dro. Os na fydd y clerc yn gwneud hyn o fewn cyfnod a ystyrir yn rhesymol gan yr ALl, rhaid i'r awdurdod alw'r cyfarfod.

65. Rhaid i'r corff llywodraethu dros dro ethol cadeirydd ac is-gadeirydd yn y cyfarfod cyntaf hwnnw.

Cyfarfodydd a Thrafodion y Corff Llywodraethu

66. Mae'r rheoliadau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a thrafodion cyrff llywodraethu dros dro yr un fath â'r rheoliadau ar gyfer cyrff llywodraethu parhaol, fel yr amlinellir ym Mhennod 4 y canllaw hwn a Rhan 8 o'r Rheoliadau Llywodraethu.

Pwyllgorau Cyrff Llywodraethu Dros Dro

67. Mae'r rheoliadau sy'n gysylltiedig â phwyllgorau cyrff llywodraethu dros dro'r un fath â rheoliadau ar gyfer cyrff llywodraethu parhaol fel yr amlinellir ym Mhennod 4 o'r canllaw hwn a Rhan 9 o'r Rheoliadau Llywodraethu.

Cyfyngiadau ar y Bobl sy'n Cymryd Rhan

68. Mae'r rheoliadau sy'n gysylltiedig â chyfyngiadau ar y bobl sy'n cymryd rhan mewn corff llywodraethu dros dro, neu'i bwyllgorau, yr un fath â rheoliadau ar gyfer cyrff llywodraethu parhaol fel yr amlinellir ym Mhennod 4 o'r canllaw hwn a Rhan 10 o'r Rheoliadau Llywodraethu.

Newid o fod yn Gorff Llywodraethu Dros Dro i fod yn Gorff Llywodraethu

69. Rhaid i'r ALl sicrhau y gwneir offeryn llywodraethu cyn i'r ysgol agor.

70. Yr ALl sy'n pennu dyddiad cyfansoddi'r corff llywodraethu o dan yr offeryn llywodraethu.

71. Dyma'r dyddiad corffori, a rhaid iddo fod cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dyddiad yr agoriad ond dim hwyrach na diwrnod olaf tymor cyntaf yr ysgol newydd.

72. Rhaid i'r ALl sicrhau bod y broses o benodi neu ethol llywodraethwyr sy'n ofynnol o dan yr offeryn llywodraethu yn cael ei chynnal yn unol â'r offeryn hwnnw cyn y dyddiad corffori, a'u bod yn dod i rym ar y dyddiad hwnnw.

73. Penodir neu etholir llywodraethwyr i gorff llywodraethu'r ysgol newydd yn unol â'r gweithdrefnau a amlinellir ym Mhennod 3 a Rhan 2 o'r Rheoliadau Llywodraethu.

Hawliau a Rhwymedigaethau Eiddo

74. Ar y diwrnod corffori, trosglwyddir yr holl dir ac eiddo a freiniwyd i'r corff llywodraethu dros dro i'r corff llywodraethu parhaol, yn ogystal â'r holl hawliau a rhwymedigaethau, yn cynnwys rhwymedigaethau o dan gontractau cyflogaeth.

Gwybodaeth i Olynwyr

75. Rhaid i'r corff llywodraethu dros dro baratoi adroddiad i'w gyflwyno i'r corff llywodraethu parhaol, sy'n egluro'r camau gweithredu a gymerwyd wrth gyflawni ei swyddogaethau.

76. Rhaid i'r holl gofnodion a phapurau sy'n gysylltiedig â'r corff llywodraethu dros dro, gan gynnwys yr adroddiad uchod, fod ar gael i'r corff llywodraethu newydd.

Y Gyfraith

Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
Deddf Addysg 2002
Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005 Rhif OS 2912/2005 Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005